# TGAU CYNLLUN MARCIO

**HAF 2018**

**TGAU (NEWYDD)**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - HAEN SYLFAENOL**
**UNED 2: Y NOFEL**
**3010N20-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2018. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**1. Llinyn Trôns**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Gwenan yn cael trafferth cerdded – llusgo tu ôl felly Llion yn arafu i gerdded gyda hi
- Aros i gael bwyta eu cinio
- Nobi'n taflu papur Mars i'r llawr - cael cerydd gan Donna
- Dewis Gwenan i arwain
- Dei yn cael ei ddewis
- Galw Dei yn ffati
- Olwen yn helpu Llion i weld lle roedden nhw ar y map
- Gags yn galw Llion yn snichyn bach slei

**[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Nid oedd Llion wedi syrthio allan o'r canŵ
- Llwyddodd i arwain y criw'n llwyddiannus i ben y mynydd
- Abseilio'n llwyddiannus
- Dringo'n gyflym
- Llion yn helpu pobl
- Llion yn neis i Gwenan
- Llion yn fwy aeddfed
- Cynnig syniad i helpu i lwyddo yn y tasgau ymenyddol

**[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Merched yn mynd i newid ar ôl y twmpath
- Gwenan ac Olwen yn cynnig vodka i Llion
- Gwenan yn mynd i chwilio am Gags
- Llion yn dawnsio gyda Gwenan ac yna'n cusanu
- Chwydodd Gwenan dros Llion
- Gwenan yn meddwl iddi weld Gags gyda Donna – y ddwy'n ffraeo
- Gwenan yn crio gydag Olwen
- Tecs Pecs yn dawnsio gyda Donna
- Llion yn treulio gweddill y noson yng nghefn y neuadd gyda Dei a Jason

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |


© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| golygus | Pawb yn ei ffansïo hi |
| diog | Ei mam yn mynd â hi i bob man yn y car |
| edrychiad yn bwysig iddi | Ysmygu i gadw'n denau |
| dihyder | Ofn dringo'r graig |
| emosiynol | Poeni am Gags – ar y noson olaf yn y disgo |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |

(d)

(i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Edrych ymlaen at y daith i fyny'r Wyddfa er mwyn cael treulio amser gydag Olwen
- Methu credu ei fod wedi bod i angladd Gags – cofio'r bore erchyll olaf yn y gwersyll
- Y newid yn ei gymeriad yn dilyn y cwrs yn y gwersyll – mwy o hyder
- Ei syndod am ei lwyddiant yn yr arholiadau TGAU
- Plannu coeden yn yr ysgol er cof am Gags
- Sôn am rai gweithgareddau yn y gwersyll yr oedd wedi eu mwynhau - y canŵio, abseilio, dringo mynydd
- Bwlio cyson Gags a Nobi – y pen lawr y tŷ bach, gwlychu'r gwely


© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

**2. Bachgen yn y Môr**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y gatiau i'r cychod yn cael eu hagor
- Jamal a Bibi yn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni
- Bibi am geisio cael gafael ar y bêl o'r cei

**[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mynd allan i chwarae pêl droed
- Taflu cerrig at y tanc
- Sefyll ar ffrwydryn tir

**[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Bibi'n gwisgo fel bachgen – dillad ei brawd yn rhy fawr iddi
- Chwilio am dacsi eu tad
- Y stadiwm bron yn llawn
- Y dorf yn tawelu wrth weld tryc y fyddin yn gyrru ar y maes
- Milwyr yn tynnu menywod allan o'r tryc
- Jamal a Bibi'n sylweddoli mai eu mam yw'r fenyw sy'n rhedeg
- Y milwyr yn anelu eu drylliau at eu mam
- Jamal am eu hatal i saethu ei fam
- Tacsi'n cyrraedd y maes – dau filwr yn anelu eu drylliau at y tacsi, ond y tacsi'n eu bwrw i'r llawr
- Mam yn rhedeg i mewn i'r tacsi roedd Dad yn ei yrru

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| penderfynol | Chwarae pêl droed, felly'n torri rheolau llywodraeth Afghanistan |
| naïf | Rhedeg ar ôl y bêl – glanio yn nŵr yr harbwr |
| heriol | Taflu cerrig at y tanc |
| ffyddlon | Gofalu am ei brawd - gwrthod mynd gydag Yusaf |
| byr ei thymer | Cicio a chnoi'r morwr ar ôl iddo daro Jamal yn ei wyneb |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |

(d)

(i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y rhyddhad o gael y teulu nôl gyda'i gilydd
- Meddwl na fyddai byth yn gweld ei blant eto
- Edrych ymlaen at fywyd newydd yn eu cartref newydd
- Ei fod wedi gorfod gadael Afhganistan er mwyn cael rhyddid i'w wraig a'i blant
- Sôn am achub ei wraig o'r stadiwm
- Gorfod gadael ffwrn ei hynafiaid ar ôl yn eu cartref



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

**3. Diffodd y Sêr**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Jim yn rhuthro i mewn i'r ystafell ac yn sgrechian
- Lora ac Anni hefyd yn gweld tad Lora – ei wyneb wedi crebachu a'r croen fel cwyr
- Ellis yn cyrraedd i weld Ifor – Citi'n ei rybuddio ei fod wedi ei anafu'n wael
- Anni am atal Ellis i weld Ifor – ond Ellis yn mynd i mewn i'r siambr

**[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Codi carreg wen – meddwl bydd rhywbeth ofnadwy'n digwydd iddi
- Yr hances les a roddodd Ellis iddi
- Cysylltiad rhwng dwyn y bag melfed a pherthynas Lora a Hywel **[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Gwraig ddieithr yn cerdded i mewn i'r siop i holi ble'r oedd Tŷ'n Rhos – chwilio am Ifor Edwards
- Ifor oedd y person olaf i weld ei gŵr yn y frwydr ym Mametz – ac roedd hi eisiau clywed beth ddigwyddodd yn y frwydr honno
- Tad Hywel oedd gŵr y ddynes – Gruff Wmffra – Ifor yn teimlo euogrwydd nad oedd wedi gallu achub Gruff Wmffra
- Mam Hywel yn gwrthod derbyn y ffaith ei fod wedi marw – gadael popeth fel ag yr oedden nhw yn y tŷ
- Wedi dod o hyd i Gruff Wmffra mewn ysbyty yn Llundain

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| dewr | Yn barod i ymuno gyda'r fyddin |
| cariadus | Jini'n galw yno'n aml – ac mae am fyw gweddill ei fywyd gyda Jini – Gwenfron a mi |
| hwyliog | Tynnu stumiau ar ei chwiorydd pan nad oedd ei fam yn gweld |
| anhrefnus | Ei feddwl am farddoni - "byddai'r defaid i lawr yn y pentra petaen ni'n gadael pethau yn nwylo Ellis." |
| gofalgar | Dweud wrth Anni i edrych ar y sêr pan fydd ef yn Litherland |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |

(d)
(i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:
- Ei balchder wrth weld cadair Birkenhead
- Yn forwyn briodas i Lora a Hywel
- Cyngor Ellis iddi – cyn mynd i Litherland – i edrych ar y sêr
- Atgof am greithiau erchyll Ifor
- Syndod sut roedd Hywel a'i fam wedi dod o hyd i'w dad
- Sôn am lythyrau Ellis o'r ffosydd – ond hefyd ei bod wedi sylweddoli bod y llythyr olaf wedi ei ysgrifennu cyn Gorffennaf 30
- Cofio'r llythyr yn cyrraedd yn cynnwys y newyddion am farwolaeth Ellis – ei mam wedi mynd i'w gwely a'i thad yn eistedd wrth ymyl y Beibl – y sêr wedi diffodd


© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

**4. Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Meredydd yn mynd ati i dacluso'r tŷ
- Penderfynu mynd allan i'r pentref i siopa bwyd
- Ei fodryb yn cyrraedd i'w helpu ac yn sôn bod Now yn falch ei fod yn rhydd

**[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 rheswm
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Am gyfaddef ei fod ef a dyn o'r enw "William Hughes" wedi dwyn gwerth £25,000 o emau o siop Jenkins yn Wrecsam
- Ef saethodd y siopwr – ond ni allai ef gael ei garcharu gan ei fod yn gwybod ei fod yn marw
- £2,000 yn unig a gafodd ef gan "William Hughes" **[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Huw wedi bod yn dathlu ewyllys Gladys ac wedi meddwi
- Huw'n bygwth bydd angen hers arall yn Hirfaen – un i Meredydd yn ogystal â Gladys
- Wil Garej yn ffonio Gareth Hughes i'w rybuddio am fwriad Huw
- Gareth yn gadael gan afael mewn sach wrth iddo fynd - cuddio ei bastwn yn ei drowsus
- Mynd i'r Wylan Wen ac yn falch o weld Meredydd yno'n sgwrsio gyda Now - am dalu cymwynas nôl i Meredydd
- Huw'n yfed wisgi ar ei ffordd adre – Gareth Hughes yn taflu'r sach dros ei ben a chlymu'r llinyn
- Gareth Hughes yn ei daro gyda'r pastwn – Huw'n disgyn i'r llawr
- Yr heddwas yn clywed sŵn crio yn y sach - Huw yn ddiymadferth, methu amddiffyn ei hun
- Gareth yn cael trafferth ei godi – ond yn sicrhau ei fod wedi chwydu cyn ei adael

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis :

| | |
|---|---|
| unig | Wedi colli ei rieni mewn damwain car – byw ar ei ben ei hunan |
| rhamantus | Yn hoffi cwmni Einir – gofyn iddi ei briodi ddwy waith |
| cryf | Yn barod i wynebu pobl y pentref yn dilyn yr achos llys |
| chwerw at yr heddlu | Yn dilyn yr achos llys a'r modd y cafodd ei drin yn y carchar<br>Eu diffyg consyrn yn dilyn marwolaeth ei rieni – bu'n rhaid iddo ef fynd allan i chwilio am gorff ei dad. |
| deall cymeriad | Nid oedd yn hoffi Richard Jones yn syth yn Yr Erddig. |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |

(d)

(i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Trist am farwolaeth Dwalad
- Teimlo dros Meredydd – yr holl heddlu'n chwilio am gorff Richard Jones
- Adnabod cymeriad – ddim yn hoffi'r dyn yn ei siwt – a deall nawr pam yr holl holi am y caeau fferm
- Hapus bod Meredydd wedi cyfarfod Einir – hen hogan iawn
- Beth fyddai ymateb Gladys pe bai hi gwybod bod y trysor o dan ei sied?

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

**5. I Ble'r Aeth Haul y Bore?**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Dicks a rhai milwyr yn lladd Indiaid yn y gwersyll
- Twyllo'r Indiaid - esgus eu bod yn ffrindiau iddyn nhw cyn eu lladd
- Dicks yn dal Haul y Bore
- Lladd Chiquito
- Treisio Haul y Bore
- Rhoi pen Chiquito ar ben cleddyf

**[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Gwenwyno'r dŵr
- Llosgi'r perllannau
- Dosbarthu blancedi â'r frech wen

**[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Dicks yn gorchymyn y Cotiau Glas i saethu ceffyl Chico
- Dicks yn saethu Cwmwl Gwyn
- Dicks am wneud rhywbeth gwaeth na chrogi Chico
- Dicks yn chwerthin wrth glywed am Usen
- Gwthio ei wn i geg Chico – gwenu'n greulon
- Clywed sŵn udo'r bleiddiaid a meddwl am syniad sut i ladd Chico
- Tanio dwy ergyd i bennau gliniau Chico
- Gorchymyn y Cotiau Glas i beidio claddu cyrff y ddau Arapahos – eu gadael wrth fôn coeden
- Llusgo Chico at Dicks - codi Chico wrth ei draed a'i adael yn hogian o goeden
- Rhwygo tafod Chico â'i gyllell – gadael i'r bleiddiaid arogli ei waed a gwaed y cyrff ar y llawr

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| ofnus | Rhedeg gyda Chiquito pan mae Dicks a'r Cotiau Glas yn cyrraedd |
| gofalgar | Amddiffyn Chiquito / gofalu am yr henoed |
| egwyddorol | Gwrthod mynd gyda Chico |
| perthynas agos â'i thad | Rhedeg at ei thad ar ôl iddi gael ei threisio |
| ffyddlon | Addo aros gyda'i phobl - gofalu am yr henoed yn ôl dymuniad ei thad. |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau/digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |

(d)

(i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Am ddial ar Dicks yn enw Chiquito – am ddial ar Dicks gyda Chico – agor craith ar ei law – sicrhau bod yr Indiaid yn cyrraedd y Bosque yn ddiogel
- Wedi deall bod Carleton yn ofni Canby – y cwrt marsial
- Wedi byw gyda'r Indiaid ac yn eu deall
- Methu credu y byddai'r Cotiau Glas yn symud yr Indiaid i dir anffrwythlon
- Cyfleu ei gasineb tuag at Dicks – cwyn swyddogol yn ei erbyn
- Cloi Dicks yn yr ystafell warchod a rhoi blancedi glân i'r Indiaid

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.

**6. Dim**

(a) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 ffaith
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Yr ysgol yn troi i edrych ar Gwyn – cael ei ddanfon allan
- Codi dau fys – dau athro yn ei lusgo o'r Neuadd.
- Gwahardd Gwyn o'r ysgol. **[3]**

(b) 1 marc am bob ateb cywir hyd at 3 rheswm
Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Rhestr gan Owain o swyddogion Gogledd Iwerddon sy'n fradwyr
- Owain yn esbonio pam cafodd ei ladd
- Gwyn yn anfon y rhestr i lysgennad yn yr Unol Daleithiau **[3]**

(c) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Yn yr ail gyrch mae Owain yn rhan o dîm SAS sy'n lladd uned o ddynion IRA oedd yn bwriadu ymosod ar yrrwr lori laeth
- Y lorri'n gyrru heibio a thynnu i mewn wrth stand laeth blociau concrit
- Cortina llwyd yn dod i lawr y ffordd – tri dyn yn y car
- Owain yn synhwyro nad oedd popeth yn iawn – paratoi ei wn
- Owain a'r tîm yn tanio eu gynnau at y car – mygydau am y tri
- Bwledi ar hyd y car – y car yn y gwrych, ond Owain a'r milwyr yn dal i saethu
- Golwg ofnadwy ar y car – gwaed ym mhob man

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos dealltwriaeth dda o'r nofel<br>• *cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r nofel<br>• *dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • arddangos gwybodaeth am gynnwys y nofel trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• *ymgais at ddilyniant*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |

(ch) Gellir sôn am bwyntiau megis:

| | |
|---|---|
| ffyddlon | Aros adre ar y fferm ond hefyd yn mynnu gwybod beth ddigwyddodd i Owain |
| hawdd ei fwlio | Targed hawdd i fechgyn eraill yn Ysgol Dre |
| galluog | Aeth i'r Brifysgol ac yn gallu dadlau'n gryf mewn cyfarfodydd |
| dewr | Codi dau fys ar Dai Lewis am ei alw'n Welsh Insect |
| gonest | Dweud wrth yr heddlu ei fod wedi bod yn rhan o'r brotest |

N= nodwedd cymeriad
T = tystiolaeth o'r nofel

| | |
|---|---|
| **5-6** | • dangos dealltwriaeth dda o'r cymeriad<br>• rhoi nifer o resymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **3-4** | • dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cymeriad<br>• rhoi rhai rhesymau / digwyddiadau fel tystiolaeth |
| **0-2** | • arddangos gwybodaeth am gymeriad trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol am y stori<br>• ambell gyfeiriad at reswm neu ddigwyddiad |


© WJEC CBAC Cyf.

(d) (i) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(ii) 1 marc am sylw perthnasol x 2 **[2]**
(iii) 1 marc am enwi'r nodwedd
1 marc am ddyfyniad cywir
2 farc am sylw i drafod effaith **[4]**

(dd) Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Y ffraeo fu rhyngddynt noson angladd Richard Lloyd - yn gwybod ar hyd yr adeg eu bod yn wahanol
- Penderfynol ei fod am ddial am ladd Owain – darllen y llythyr cyn ei ddanfon at lysgennad yr Unol Dalaethiau
- Gwybod ar hyd yr amser fod Owain yn pysgota am wybodaeth am ymgyrch Ie dros Gymru
- Enwi ei fab ar ôl Owain - dangos ei gariad at ei frawd - ac yn dangos y griafolen iddo
- Cymreictod yn bwysig – gwrthwynebu'r maes carafannau – dim manteision i bobl leol
- Symbolaeth y gwenoliaid - fel y Cymry'n cael eu chwalu

| | |
|---|---|
| **8-10** | • dangos gwybodaeth dda am y testun gwreiddiol – cymeriadau a digwyddiadau<br>• dangos ymwybyddiaeth o brif nodweddion y testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch yn eithaf da<br>• ymwybyddiaeth o nodweddion y cymeriad a'i deimladau<br>• *adnabyddiaeth eithaf da o ffurf gan ddefnyddio arddull ysgrifennu eithaf da sy'n briodol i'r pwrpas*<br>• *arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **4-7** | • dangos gwybodaeth am y testun gwreiddiol - trwy gyflwyno rhai ffeithiau perthnasol i'r dasg dan sylw am gymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i adlewyrchu'r testun gwreiddiol o ran naws ac awyrgylch<br>• dangos peth dealltwriaeth o gymeriadau<br>• *ymwybyddiaeth fras o'r ffurf gan ddangos peth ymdrech i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **0-3** | • dangos peth gwybodaeth am y testun gwreiddiol - cymeriadau a digwyddiadau<br>• ymgais i gyflwyno gwaith creadigol yn seiliedig ar destun syml<br>• ychydig o fanylion am gymeriadau a digwyddiadau<br>• *peth ymwybyddiaeth o'r ffurf a'r angen i ysgrifennu'n briodol i'r pwrpas*<br>• *gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.